Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y cyfarfod:	**15 Hydref 2024**
Lleoliad:	**Siambr y Cyngor / O Bell Trwy Gynhadledd Fideo**
Teitl:	**Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion 2023/24 drafft**
Pwrpas yr adroddiad:	**Adolygu a gwneud argymhellion ar yr Adroddiad Hunanasesu Drafft**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet	**Arweinydd y Cyngor - Polisi a Pherfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd**

Cefndir

Cyflwynodd Rhan 6 o **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefn** berfformio newydd ar sail Hunanasesiad ar gyfer Prif Gynghorau.

Bwriad y drefn berfformio newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau'n ymdrechu'n barhaus i wella a gwneud yn well ym mhopeth y maent yn ei wneud, waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Disgwyliad y Ddeddf yw y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio'r *status quo* yn barhaus a gofyn cwestiynau am sut maen nhw'n gweithredu.

Mae 5 dyletswydd benodol ar gyfer Cynghorau a gyflwynwyd gan y Ddeddf:

- Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad
- Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Dyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Dyletswydd i drefnu Asesiad Perfformiad Panel
- Dyletswydd i ymateb i Asesiad Perfformiad Panel

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r rôl hanfodol y mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** yn ei chwarae yn y Broses Hunanasesu. Mae'r rôl hon yn cynnwys y Pwyllgor:

- Derbyn Adroddiad Hunanasesu drafft y Cyngor.

- Adolygu'r Adroddiad Hunanasesu drafft a gwneud argymhellion ar y casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd.

- Derbyn yr adroddiad Hunanasesu terfynol pan gaiff ei gyhoeddi, gan gynnwys sylwebaeth ar pam mae ei argymhellion yn cael eu derbyn neu eu gwrthod.

Y Sefyllfa Bresennol
Mae'r Adroddiad Hunanasesu Drafft bellach wedi'i lunio ac mae wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Datblygwyd yr Adroddiad drwy asesu amrywiaeth eang o dystiolaeth gan gynnwys adroddiadau ac adolygiadau mewnol, adroddiadau rheoleiddio ac arolygu allanol a gweithgareddau ymgysylltu'n hanfodol ac ymgynghori. Mabwysiadodd y Cyngor set o gwestiynau allweddol neu "Linellau Ymholiadau Allweddol" i sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar ganlyniadau, y farn ar berfformiad ar draws y sefydliad a'i bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod mis Ebrill a mis Mai gydag Aelodau a Swyddogion y Cyngor i werthuso perfformiad cyfredol, y cyfleoedd sy'n bodoli i'w gwella a'r camau penodol yr ydym yn bwriadu eu cymryd. Cofnodir y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu a ddefnyddir i helpu i lunio'r Adroddiad Hunanasesiad a'r cynllun Gweithredu, ac mae ar gael ar gais.

Er mai'r Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses, mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn. Drwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesu, rydym yn casglu tystiolaeth i lywio'r gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesu ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at gwblhau.

Mae'n bwysig nodi bod yr Adroddiad yn cyflawni gofynion:
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – dyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gosod ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol

Y Camau Nesaf
Bydd yr Adroddiad Hunanasesiad Drafft yn cael ei ddiweddaru yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bydd y fersiwn derfynol yn cael ei hadrodd i'w gyfarfod ar 29 Ionawr 2025.

Argymhelliad / Argymhellion: **Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r Adroddiad Hunanasesu Drafft ac yn gwneud argymhellion ar y casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd**

Rheswm dros benderfyniad: **Sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Atodiadau: Atodiad 1 - Adroddiad Hunanasesu Drafft 2023/24

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Swyddog Adrodd: Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Dyddiad: 02 Awst 2024